Eisteddfod a'r Celfyddydau

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

*****SEE ENGLSH BELOW*****

# Eisteddfod yr Urdd

## Cystadleuaeth Lefel 2 a 3 Harddwch bl.10 a dan 25 oed

### Sut i gystadlu?

- Ymaelodwch â'r Urdd ar wefan yr Urdd -https://porth.urdd.cymru
- Cofrestrwch i gystadlu ar-lein cyn y dyddiad cau

**Dyddiad cau cofrestru Lefel 2 + 3 Harddwch 15fed o Ragfyr**

### Trefn y gystadleuaeth

- Trefnir Rowndiau Rhanbarthol gan Drefnydd Eisteddfod yr Urdd yn y flwyddyn newydd ar ol y dyddiad cau i gofrestru ar y **15fed o Ragfyr 2025**. Bydd amryw o Rowndiau Rhanbarthol yn cael eu cynnal mewn colegau o amgylch Cymru a bydd y trefnydd mewn cysylltiad gyda dyddiad a lleoliad ar ol y dyddiad cau.
- Bydd y beirniad yn gwobrwyo 3 unigolyn buddugol gyda 1af, 2ail a 3ydd allan o'r holl Rowndiau Rhanbarthol. Yna fe fydd na wahoddiad i'r 3 unigolyn i ddangos eu gwaith eto a derbyn eu medalau yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ynys Mon rhwng **Mai y 23ain a Mai y 29ain 2026.**

| CYSTADLEUAETH | ROWNDIAU | TASGIAU |
|---|---|---|
| **Lefel 2 a 3 Harddwch** | **Rhanbarth + Cenedlaethol** | **Tasg 1 – Triniaeth Wyneb**<br>**Tasg 2 - Gwaith cwtigl a ffeilio**<br>**Tasg 3 – Gosod farnis coch Crème** |

# Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Bydd Therapydd Harddwch yn cyflawni ystod o wasanaethau harddwch a gofal croen o safon uchel gan gynnwys triniaethau i'r wyneb, coluro, trin ewinedd y dwylo a'r traed, trin blew amrant ac aeliau; a'r cyfan o dan safonau iechyd a diogelwch gofynnol.

Yn y gystadleuaeth hon, bydd cystadleuwyr yn cael eu hasesu ar gyfres o dasgau, gan gynnwys farnis ewinedd coch Crème / gwaith cwtigl a ffeilio, yn ogystal â triniaeth wyneb.

Cynhelir rowndiau rhanbarthol byw mewn colegau ledled Cymru.

# Briff

Dylai'r cystadleuwyr sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon allu dangos

- Ymddygiad proffesiynol
- Arferion gweithio diogel
- Agwedd broffesiynol
- Rhyngweithio effeithiol â'r cleient
- Lefel uchel o sgil a deheurwydd
- Gallu i reoli'r amser sy'n cael ei osod
- Dulliau gweithio ergonomig
- Arferion cynaliadwy
- Yr Iaith Gymraeg

## Briff y Gystadleuaeth

**Diwrnod Pampro – cyfanswm 70 munud**

Bydd y cystadleuydd yn gyfrifol am eu hamseriadau eu hunain. Ni fydd unrhyw egwyl rhwng triniaethau ac mae'n rhaid eu cyflawni yn y drefn ganlynol:

### Tasg 1: Triniaeth Wyneb: 40 munud

Rhaid i'r cystadleuydd gyflawni'r canlynol – glanhau, digennu (PG), tylino'r wyneb, y gwddf a'r décolleté am 10 munud, taenu'r masg (PG), tôn a lleithder.

**Sylwer**: Mae pwynt gwirio (PG) ar gyfer digennu a thaenu'r masg. Rhaid i'r tylino wyneb fod yn 10 munud o hyd, a fydd yn cael ei amseru yn ystod y gystadleuaeth. Rhaid i'r masg wyneb a ddefnyddir fod yn fasg anhryloyw, gweladwy

## Tasg 2: Gwaith Ffeilio a Chwtigl: 15 munud

Rhaid i'r cystadleuydd gyflawni’r canlynol - gwaith ffeilio a chwtigl, ar y ddwy law. Sociwch y ffeil ewinedd, ffon â charn rwber, cyllell cwtigl a thorwyr cwtigl.

**Sylwer**: rhaid i ewinedd y model fod yn hollol naturiol - dim farnis, dim estyniadau. Ni ddylid defnyddio olew cwtigl. Bydd yr ewinedd yn cael eu harchwilio cyn dechrau'r gystadleuaeth a bydd unrhyw waith ymlaen llaw ar yr ewinedd yn arwain at dynnu marciau.

## Tasg 3 – Gosod farnis coch Crème: 15 munud

Rhaid i'r cystadleuydd gyflawni'r canlynol - farnis coch crème wedi'i osod ar bob un o'r 10 ewinedd, gan gynnwys cot sylfaen a chot uchaf.

**Sylwer:** rhaid i ewinedd y model fod yn hollol naturiol - dim farnis, dim estyniadau. Ni ddylid defnyddio olew cwtigl.

# Offer

Bydd bwrdd, cadair bach, dwr a phwynt pwer yn cael eu darparu gan y coleg yn y Rownd Rhanbarthol– fel arall, bydd yr holl offer, teclynnau a chynnyrch yn rhai sy’n perthyn i’r cystadleuwyr eu hunain.

# Rheolau sy'n benodol i’r gystadleuaeth

Ymddygiad disgwyliedig cystadleuwyr yn ystod cystadlaethau byw:

- Rhaid i gystadleuwyr osod eu offer a chymryd rhan yn y gystadleuaeth ar eu pennau eu hunain. **Ni ddylai tiwtoriaid, cydweithwyr nac unrhyw un arall fod yn ardal y gystadleuaeth ar unrhyw adeg, nid cyn nac yn ystod y gystadleuaeth.** Bydd y modelau'n dod i mewn i'r ystafell ar ddechrau'r gystadleuaeth.
- Os oes nifer o gystadleuwyr o gampws gwahanol ynghlwm â’r un sefydliad, bydd mannau gweithio’r cystadleuwyr yn cael eu gosod o amgylch ardal y gystadleuaeth fel y bydd y beirniaid yn penderfynu.
- Ni chaniateir i’r cystadleuwyr ddod ag unrhyw addurniadau i addurno eu hardal waith h.y. blodau, fasau, ac ati.
- Rhaid i gystadleuwyr sicrhau eu bod yn cadw at amseriadau a osodir gan y beirniaid ar ddechrau'r gystadleuaeth. Ni fydd amser ychwanegol yn cael ei neilltuo i'r rhai sydd ddim yn barod ar gyfer pob tasg.

- Dylai’r cystadleuwyr wisgo gwisg therapi harddwch a chyflwyno eu hunain mewn modd a fyddai'n dderbyniol mewn busnesau masnachol. Ni ddylid gwisgo gemwaith nac addurniadau tyllau'r corff.
- Rhaid i gystadleuwyr orchuddio pob logo ac unrhyw eitemau eraill sy'n dynodi eu colegau neu sefydliadau eraill maent yn rhan ohono.
- Bydd cystadleuwyr yn dechrau ac yn gorffen gwaith yn unol â chyfarwyddiadau’r beirniaid. Yn ystod y gystadleuaeth, ni ddylai cystadleuwyr darfu ar fyfyrwyr/timau eraill na siarad ag aelodau o'r cyhoedd.
- Rhaid i unrhyw gystadleuydd sy'n dymuno gadael yr ardal yn ystod y gystadleuaeth ofyn am ganiatâd y beirniaid i wneud hynny.
- Ni fydd cystadleuwyr sy'n torri neu'n difrodi eu hoffer eu hunain yn ystod y gystadleuaeth yn cael amser ychwanegol.
- Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddod â model ar y diwrnod. Ni ddylai’r modelau fod yn wrthrybuddiol i unrhyw un o'r triniaethau.
- Bydd modelau'n cael eu profi cyn y cystadlaethau; bydd unrhyw un a ddarganfyddir i fod yn anaddas yn arwain at gosb i’r cystadleuydd. Ni ddylai’r modelau gynorthwyo'r cystadleuydd mewn unrhyw ffordd gan y gallai hyn effeithio ar farciau'r cystadleuydd.
- Cystadleuwyr sy'n gyfrifol am ddarparu’r holl gynhyrchion ac offer, gan gynnwys tywelion. Fodd bynnag, bydd y gwesteiwyr yn darparu bwrdd a stôl. Mi fydd rhaid gofyn i symud unrhyw eitemau a gaiff eu rhoi ar sinciau, silffoedd a chypyrddau yn y man gwaith

Os gwelir cystadleuwyr yn gweithio mewn modd anniogel, byddant yn cael ei stopio acni chaniateir iddynt barhau oni bai eu bod yn fodlon dilyn cyfarwyddiadau'r beirniaid.

## Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth

- Bydd ffonau symudol yn cael eu diffodd yn ystod gweithgareddau’r gystadleuaeth.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth drwy glustffonau yn ystod gweithgareddau’r gystadleuaeth.
- Dylai unrhyw gwestiynau yn ystod gweithgareddau’r gystadleuaeth gael eu gofyn i banel beirniadu'r gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod gweithgareddau’r gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd ar amser ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir amser ychwanegol os byddwch yn cyrraedd yn hwyr.

# Marcio ac Asesu

Bydd y beirniad yn marcio ac yn beirniadu'r gystadleuaeth hon ar gyfer y Rownd Rhanbarthol, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau sydd wedi'u gosod i sicrhau cysondeb.

Dadansoddiad byr o’r marcio a’r asesu

| **Tasg** | **Disgrifiad** | **Marciau a ddyfarnwyd** |
|---|---|---|
| Cyflwyniad a personol sgiliau rhyngbersonol | Ymddangosiad (gwisg, esgidiau, colur ac ewinedd y therapydd ei hun, dim gemwaith). Gofal cleientiaid a rhyngweithio, rheoli amser, hylendid ac iechyd a diogelwch. | 12% |
| Triniaeth Wyneb | Glanhau, cadw amser, tylino, masg, gofal cleientiaid, digennu, tôn a lleithio. | 35% |
| Ffeil a Chwtigl | Techneg ffeil a chwtigl, taclusrwydd, y defnydd cywir o offer a theclynnau. | 25% |
| Farnis Coch Crème | Rhoi’r farnis a thaclusrwydd | 25% |
| Cymraeg Achlysurol a Chynaliadwyedd | Defnyddio’r Gymraeg yn achlysurol (e.e. defnyddio ymadroddion gyda’r model/cleient; labeli Cymraeg ar gynhyrchion cystadleuwyr).<br>Arferion cynaliadwy (e.e. math(au) o gynhyrchion a ddefnyddir; faint o wastraff a gynhyrchir). | 2%+1% =3% |
| | **Cyfanswm** | **100%** |

Bydd asesiad gwrthrychol yn cael ei ddefnyddio unrhyw amser mae’r broses neu'r cynnyrch yn gywir neu'n anghywir, yn gyflawn neu'n anghyflawn, yn erbyn meincnod penodol y gall y beirniaid gytuno arno (0/1). Mae’n cael ei ddefnyddio unrhyw gyfle sy’n bosib i gymryd mesuriad o ryw fath.

Ar gyfer meini prawf yr holl feirniadaeth, bydd y raddfa farcio ganlynol/neu amrywiaeth ohono yn cael ei ddefnyddio:

0 – Nid yw'n bodloni safon y diwydiant
1 – Bodloni safon ofynnol isaf y diwydiant
2 – Bodloni safon y diwydiant
3– Yn rhagori ar safon y diwydiant

## Adborth a Chydnabyddiaeth

- Ni fydd na unrhyw ganlyniad ar ddiwrnod y Rownd Rhanbarthol. Bydd y beirniad yn penderfynnu ar yr unigolion buddugol ar ol y rownd Rhanbarthol olaf a bydd trefnydd yr Eisteddfod yn cysylltu a'r holl cystadleuwyr yn nodi y canlyniad dros E-bost. Bydd dim hawl gyda'r beirniad i gydraddu.
- Bydd na wahoddiad yn mynd i'r 1af, 2ail a'r 3ydd i dderbyn eu medalau yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ynys Mon (Mai 23-29 2026) a bydd na gyfle iddyn nhw hefyd arddangos eu gwaith ar faes yr Eisteddfod.

**Am fwy o fanylion, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Sian Edwards - sianedwards@urdd.org**

## ***Sgiliau Cymru***

Mae cystadleuaeth Lefel 2 + 3 Harddwch Eisteddfod yr Urdd mewn partneriaeth gyda Chystadlaethau Sgiliau Cymru. Am fwy o fanylion am eu cystadlaethau harddwch nhw, ewch i'w gwefan - Therapydd Harddwch - Skills Competition Wales

Eisteddfod a'r Celfyddydau

Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

# Eisteddfod yr Urdd

# Level 2 + 3 Beauty Competition – Yr 10 and under 25

## How to compete?

- Become a member of the Urdd via Porth - https://porth.urdd.cymru
- Register to compete via Porth in the Level 2 + 3 Beauty competition before the deadline.

**Level 2 + 3 Beauty registration deadline 15th of December**

## Order of competition

- The regional round is organised by the National Urdd Eisteddfod Organiser in the new year after the deadline to register has passed on the **15th of December 2025.** The Regional Rounds will be held at various Colleges around Wales. We will contact the competitors in January to notify them of the date and location of their Regional Round.
- After every Regional Round has been held, the judge will award 3 individuals out of all of the rounds with 1st, 2nd and 3rd. Those 3 individuals will then be invited to come to the National Urdd Eisteddfod in Anglesey for a day between **May 23rd and May 29th** to receive their medals and showcase their work.

| Competition | Round | Tasks |
|---|---|---|
| **Level 2 + 3 Beauty** | **Regional + National** | **Task 1 - Face Treatment**<br>**Task 2 - File and cuticle work**<br>**Task 3 - Crème red polish application** |

# Competition Overview

A Beauty Therapist carries out a range of high quality beauty and skincare services including facial treatments, make-up, manicure, pedicure, lash and brow treatments; all within the required health and safety standards.

In this competition, competitors will be assessed on a series of tasks, including Creme red polish / file and cuticle work plus a face treatment with exfoliation and massage.

Live Regional Rounds will be held at various Colleges across Wales.

# Brief

Competitors taking part in this competition should be able to demonstrate;

- Professional demeanor
- Safe working practices
- Professional attitude
- Effective interaction with the client
- High level of skill and dexterity
- Management of time allocation
- Ergonomic working methods
- Sustainable practices
- Welsh Language

# Competition Brief

**Pamper Day - total 70 minutes**

The competitor will take control of their own timings, there will be no breaks between treatments which must be performed in the following order:

### Task 1 – Face Treatment: 40 minutes

The competitor must carry out the following – cleanse, exfoliation (CP), 10-minute face, neck and decollete massage, mask application (CP), tone and moisture.

**Please note:** There is a check point (CP) for exfoliation removal and mask application. The facial massage must be 10 minutes long, which will be timed during the competition. The face mask used must be an opaque, visible masque.

### Task 2 – File & Cuticle work: 15 minutes

The competitor must carry out the following – file and cuticle work, on both hands. Soak nail file, hoof stick, cuticle knife and cuticle nippers.

**Please note:** the model's nails must be completely natural - no polish, no extensions. No cuticle oil must be used. A pre-check of nails will be done prior to the competition starting and any prework carried out on the nails will result in marks deducted.

### Task 3 – Crème red polish application: 15 minutes

The competitor must carry out the following – a crème red polish applied to all 10 nails, including a base and topcoat.

**Please note:** the model's nails must be completely natural- no polish, no extensions. No cuticle oil must be used.

# Infrastructure List

Table, folded small chair, water and an electric point will be provided by the College in the Regional Round - all other equipment, tools and products must be the competitor's own.

# Competition Rules

## Competition specific rules

Conduct for competitors during live competitions:

- Competitors must set up and participate in the competition on their own. **At no point should accompanying tutors, colleagues or others be in the competition area before or during the competition**. Models will enter the room at the start time of the competition.
- Where there are a number of competitors from a different campus attached to the same organisation, the competitors' workstations will be placed around the competition area at the discretion of the judges.
- Competitors must not bring any ornaments to decorate their work area e.g. flowers, vases, etc.
- Competitors must ensure that they keep to timings set by judges at the beginning of the competition, extra time will not be allocated to those who are not ready for each task.
- Competitors should be dressed in beauty therapy attire and present themselves in a manner which would be acceptable within commercial enterprises. No jewellery or piercings are to be worn.
- Competitors must cover all logos and other items that identify their colleges or other organisations of origin.
- Competitors will start and finish work as instructed by the judges.
- During the competition, competitors should not disturb other

students/teams or speak to members of the public.

- Any competitor who wishes to leave the area during the competition must seek thepermission of the judges.
- If there is a power stoppage, breakdown of machinery or accident, the competitors must act according to the instructions of the judges.
- Competitors who break or damage their own equipment during the competition will not
  receive additional time.
- Competitors will be required to bring a model on the day. The models must not be contra-indicated to any of the treatments.
- Models will be checked prior to the competitions; any found to be unsuitable will incur penalties for the competitor (tutor of the student or has taught the student prior). In addition to this, models must not be over-prepared and must arrive to the competition in line with the requirements detailed above. For example nails must be natural and not be prepared in any way before the competition commences, failure to adhere to this will incur penalties for the competitor. Models must not aid the competitor in any way as this may affect the competitor’s marks.
- Competitors are responsible for supplying all products and equipment, including towels.

**Where a competitor is observed working in an unsafe manner, s/he will be stopped and not permitted to continue unless willing to follow the judges' instructions.**

## Generic competition rules

- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

# Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by the judge, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

Brief breakdown of marking and assessment.

| Task | Description | Marks awarded |
|---|---|---|
| Personal and interpersonal skills | Appearance (uniform, shoes, therapist's own make up & nails, no jewellery), hygiene and posture. | 12% |
| Face Treatment | Cleanse, timekeeping, massage, mask, client care, exfoliation, tone and moisturising. | 35% |
| File and Cuticle | File and cuticle technique, neatness, correct use of tools and equipment. | 25% |
| Crème red polish/File and Cuticles | Application of polish and neatness. | 25% |
| Incidental Welsh & Sustainability | Instances of incidental Welsh (e.g.phrases with model/client; Welsh labelling on competitor products). Sustainable practices (e.g. type(s) of products used; amount of waste produced) | 2% + 1% = 3% |
| | **Total** | **100%** |

Objective assessment will be used whenever the process or product is correct or incorrect, complete or incomplete, against a given benchmark that the judges can agree on (0/1). It is used whenever it is possible to take a measurement of some kind.

For all judgment criteria, the following marking scale will be used, or a variation of:
0 – Does not meet industry standard
1 – Meets minimum industry standard
2 – Meets industry standard
3 – Exceeds industry standard

# Feedback and Recognition

- No results or awards will be awarded on the day of the Regional Round. The judge will make their decision after every Regional Round has been held and the Eisteddfod Organiser will notify every competitor of the result via E-mail. The judge will not be allowed to give joint awards. Judge’s decision is final.
- The 3 individuals receiving 1st, 2nd and 3rd will then be invited to come to the National Urdd Eisteddfod in Anglesey for a day between **May 23rd and May 29th** to receive their medals and showcase their work.

**If you need any more information or have any questions, please contact Sian Edwards - sianedwards@urdd.org**

## Skills Competition Wales

The Eisteddfod yr Urdd Level 2 + 3 Beauty competition is in partnership with Skills Competition Wales. For more information about their beauty competitions, please visit Skills Competition Wales website - Beauty Therapist - Skills Competition Wales